

Welsh Affairs Committee

Oral evidence: [S4C review](#), HC 1207

Tuesday 18 December 2018

Ordered by the House of Commons to be published on 18 December 2018.

[Watch the meeting \(as spoken\)](#)

[Watch the meeting \(in English\)](#)

Members present: David T. C. Davies (Chair); Tonia Antoniazzi; Guto Bebb; Chris Davies; Susan Elan Jones; Ben Lake; Jack Lopresti; Liz Saville Roberts.

Questions 104-154

Witnesses

[I](#): Huw Jones, Chair, S4C Authority, and Owen Evans, Chief Executive, S4C.



Examination of witnesses

Witnesses: Huw Jones and Owen Evans.

Q104 **Chair:** Prynhawn da. Hoffwn groesawu Owen Evans a Huw Jones i'r Pwyllgor Materion Cymreig. Diolch yn fawr am ddod. Yn amlwg, mae gennym ychydig o gwestiynau heddiw am waith S4C dros y flwyddyn ddiwethaf. I ddechrau, pa fath o waith sydd wedi cymryd lle i weithredu argymhellion adolygiad y Llywodraeth?

(Translation) Good afternoon. I welcome Owen Evans and Huw Jones to the Welsh Affairs Committee this afternoon. Thank you for coming. Clearly, we have some questions for you today about S4C's work over the past 12 months. First of all, what work have you undertaken to implement the recommendations of the Government review?

Huw Jones: Mae yna ddau fath o argymhelliad: argymhellion strwythurol ac argymhellion ynglŷn â'r gwasanaeth. O ran y rhai strwythurol, y prif argymhelliad yw ein bod yn cael ein hail-gyfansoddi fel bwrdd unedol. Mae angen deddfwriaeth gynradd i wneud hyn, felly ry'm ni'n disgwyl y ddeddfwriaeth gynradd pan fydd amser seneddol ar ei chyfer.

Argymhelliad y Llywodraeth oedd ein bod ni, tra'n disgwyl am y ddeddfwriaeth, yn gweithredu fel bwrdd unedol cysgodol. Ry'm ni'n gwneud hynny ac wedi sefydlu ein hunain fel bwrdd unedol cysgodol. Mae gennym reolau sefydlog newydd sydd yn darparu ar gyfer hynny. Mae Owen, fel prif weithredwr, nawr yn cael ei ystyried yn aelod o'r bwrdd cysgodol unedol. Bydd dau swyddog arall yn cael eu penodi yn fuan i fod yn aelodau o'r bwrdd cysgodol. Felly ry'm ni'n hapus ein bod yn gweithredu ysbryd yr argymhelliad yna tra'n disgwyl y ddeddfwriaeth fydd yn ail-gyfansoddi'r corff.

(Translation) There are two types of recommendations: structural recommendations and recommendations about the service. In terms of the structural recommendations, the main recommendation is that we are reconstituted as a unitary board. That requires primary legislation, so we are expecting that primary legislation when there is parliamentary time for it.

The Government's recommendation was that, while we were waiting for that, we operate as a shadow unitary board. We are doing so: we have established ourselves as a shadow unitary board, and we have new standing orders in place that provide for that. Owen, as chief executive, is now considered a member of the shadow unitary board. Two other officers will be appointed shortly as members of the shadow board, and so we are happy that we are implementing the spirit of that recommendation while we await the legislation that will reconstitute the body.

Q105 **Chair:** Unrhyw beth arall i ddweud, Mr Evans?

(Translation) Anything else to say, Mr Evans?



HOUSE OF COMMONS

Owen Evans: O ran ochr y gweithgaredd, i gymryd yr un fath o batrwm ag y mae Huw wedi sôn amdano, yn strwythurol ry'm ni wedi newid pethau yn fewnol i ni allu gael y capasiti i weithredu argymhellion yr adolygiad. Dwi wedi creu tîm newydd sydd yn ffocysu yn bennaf ar faterion digidol. Dwi hefyd wedi dod â mwy o gapasiti i reoli prosiectau fel ry'm ni'n mynd ati i weithredu'r pethau yma o ddifrif.

O gwmpas y pethau digidol, yn gyntaf o gwmpas y gwasanaeth, dwi wedi edrych ar isadeiledd. Mae Clic wedi dechrau cael ei ddiweddarau ac mae gennym gynllun nawr ar gyfer y 18 mis nesaf i fynd â Clic o ble mae e nawr i wasanaeth sydd yn gallu cystadlu efo iPlayer, Netflix a phethau felly. O fewn hynny, dwi'n edrych ar gynnwys ar-lein hefyd. Roeddwn i'n falch i weld bod bocs sets gyda ni ar-lein am y tro cyntaf wythnos diwethaf a bod hyn wedi cael ymateb da iawn. Wrth gwrs, pwrpas defnyddio Clic yw cael mwy o ddata am sut mae pobl yn gwyllo S4C. Dyna'r isadeiledd sy'n cael ei dyfu o dan y wyneb, i ni ddeall yn union beth ma pobl yn gwyllo ac eisiau gwyllo, a'n bod yn gallu marchnata atyn nhw, un wrth un. Ar ben hynny, wedyn, mae'n rhaid i fi ddadansoddi os ydyn ni'n gwneud y pethau iawn o gwmpas y buddsoddiad digidol.

(Translation) Just looking in terms of activity, taking a similar pattern to Huw, structurally we have changed things internally so that we have the capacity to implement the review's recommendations. I have created a new team that focuses mainly on digital matters. I have also brought more capacity into project management as we start implementing these seriously.

Around digital, first of all in terms of service, I have looked at infrastructure. Clic has started to be updated; we have a plan over the next 18 months to take Clic from what it is now to a service that can compete with iPlayer, Netflix and so on. Within that, I am looking at online content as well. I was very happy to see that we have box sets online from last week, and they have had a very good response. The purpose of using Clic is to get more data about how people are viewing S4C. That is the infrastructure we are developing under the surface, so that we gain an understanding of what people are watching and what they want to watch, and we can start marketing to people, one by one. On top of that, we need to analyse whether we are making the right digital investment.

Q106 **Chair:** A fydd hi'n bosib gweld S4C ar Clic mewn gwledydd eraill?

(Translation) Will it be possible to see S4C on Clic in other countries?

Owen Evans: I can give the official and the unofficial answer. The official answer is no, because that will depend on what rights pertain to the programmes contained on Clic. I am aware that people use devices such as virtual private networks as a tunnel into the UK, and watch S4C and other content.

Chair: I think we would welcome our friends in Patagonia being able to watch S4C.

Q107 **Ben Lake:** I aros gyda Clic am eiliad, roeddech chi'n sôn bod camau eraill



HOUSE OF COMMONS

dros y 18 mis nesaf o ran datblygu Clic. Yn ystod y 18 mis yna, ydych chi'n rhagweld bydd gwylwyr a defnyddwyr yn gweld gwahaniaeth neu yw e'n rhywbeth sydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer newid mawr ymhen blwyddyn a hanner?

(Translation) Let's stay on Clic for a moment. You said there were other steps to take over the next 18 months in developing Clic. In those 18 months, do you expect viewers or users to see a difference, or is it something that is preparing the way for a big change in a year and half's time?

Owen Evans: Na, bydd pobl yn gweld gwahaniaeth mis yma. Am y tro cyntaf, dros y Nadolig mae 10 bocs set ar gael trwy Clic yn unig, ond bydd gwasanaethau newydd yn cael eu lawnsio trwy Clic bron fesul mis. Er enghraifft, os ydych chi'n mynd ar iPlayer ar y funud ac yn dechrau gwyllo rhywbeth hanner ffordd trwyddo, chi'n gwasgu botwm a mae'n mynd nôl i'r dechrau. Mi fydd soft launch mewngofnodi yn digwydd mis yma a dechrau mis nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud hard launch, felly bydd rhaid i chi fewngofnodi ymhen cwpl o fisoedd. Mae hyn yn meddwl, unwaith rydych chi wedi cofnodi unwaith, os rydych chi'n gwyllo rhaglen ar Clic ar y ffôn neu ar gyfrifadur adre neu ar y prif sgrîn, ble bynnag chi'n pigo lan y rhaglen yna, bydd yn dechrau ble'r oeddech yn ei wyllo o'r blaen. Mae yna lot o wasanaethau bydd yn gwbl wahanol ar Clic dros y misoedd nesaf a fydd yn gwella safon y profiad i'r gwylwyr.

(Translation) No, people will see a difference this month. For the first time, over Christmas, 10 box sets will be available through Clic only, but new services will be launched through Clic almost every month. For example, if you use iPlayer at the moment and you start watching something halfway through, you press a button and you can go back to the beginning. There will be a soft launch of the log-in this month and at the beginning of next month. That will allow us to do a hard launch in a few months' time, so you will have to log in. That means that when you have logged in once, if you are watching a programme on Clic on your phone, your home computer or on a main screen, wherever you pick up that programme, it will start from where you were watching it. Over the next few months a lot of services will be completely different on Clic, which will improve the user experience.

Q108 **Ben Lake:** I ddychwelyd at y sgript, rydw i'n cofio yn y sesiwn ddiwethaf bod ambell i bryder wedi cael ei grybwyll am y ffordd y byddai'r bwrdd unedol yn gallu bod yn annibynnol o S4C. Oes gennych chi unrhyw sylwadau o ran sut rydych chi'n mynd ati i sicrhau annibyniaeth y bwrdd ac, yn benodol, i ddiogelu bod y bwrdd yn gallu eich dal chi'n atebol yn ôl yr angen?

(Translation) To return to my script, in the last session a few concerns were expressed about the way in which the unitary board could be independent of S4C. Do you have any comments about how you go about ensuring the board's independence, specifically to ensure they can hold you to account as needed?



HOUSE OF COMMONS

Huw Jones: Yr egwyddor sylfaenol, wrth gwrs, yw mai un bwrdd sydd a bod y bwrdd yna yn gyfuniad o aelodau anweithredol ac aelodau gweithredol. Mae pob aelod o'r Awdurdod presennol wedi cael gwybod y byddan nhw'n parhau—yn enwedig y rhai newydd—fel aelodau o'r bwrdd unedol. Mae yna symudiad—migration, mewn ffordd—o'r sefyllfa bresennol, drwy'r drefn gysgodol, i'r drefn derfynol. Ar hyn o bryd, mae gennym chwech aelod anweithredol, gan gynnwys y cadeirydd. Mi fydd yna dri aelod gweithredol yn dod—Owen yn un. Rydym ni wedi ei chael ar ddeall yn ddiweddar iawn ei bod hi'n fwriad gan yr Adran i benodi dau aelod anweithredol newydd ychwanegol. Mi fydd hynny'n rhoi trefn o naw aelod anweithredol a thri aelod gweithredol nes y bydd deddfwriaeth yn dod. Bydd y deddfwriaeth wedyn yn gorfod edrych ar y cwestiwn, "Beth yw'r nifer delfrydol?", ond felly mae hi'n gweithredu.

Un peth diddorol ac anodd i ni yw y byddwn yn parhau i fod yn gorff fel yr ydym ni nes bod deddfwriaeth yn dod. Rydym wedi cael cyngor gan gyfreithwyr DCMS bod angen gofal yn hyn o beth na allwn ddim peidio â bod yn gorff statudol fel yr ydym ni. Mae'r aelodau ffurfiol wedi cael eu penodi i fod ar y corff hwnnw. Rydyn ni wedi creu rheolau sefydlog sydd yn ystyried sefyllfa lle mae pleidlais yn digwydd a bod gwahaniaeth barn rhwng aelodau anweithredol ac aelodau gweithredol. Rydym ni wedi trio edrych yn synhwyrol a rhoi rheolau lawr ar gyfer beth ddylai digwydd mewn sefyllfa felly, i gymryd sylw o'r wahaniaeth barn. Ond hefyd, i gydnabod y ffaith mai'r aelodau ffurfiol, sydd wedi cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yw'r aelodau sydd, ar ddiwedd y dydd, â'r hawl statudol i wneud penderfyniad, nes bod deddfwriaeth wedi digwydd.

(Translation) The basic principle is that you have one board and that it is a combination of non-executives and executives. Every member of the current Authority has been informed that they will continue as members of the unitary board, especially the new ones. There is movement—a migration, in a way—from the current situation, through the shadow arrangement, to the final arrangement. At the moment, we have six non-executive members, including the chair. Three executive members will join them—Owen is one. We heard recently that the Department will appoint two additional non-executive members. That will give a system of nine non-executive and three executive members until we get the legislation. The legislation will need to look at the question of ideal numbers, but that is how things stand.

One challenging issue is that we will still be the same organisation until we get the legislation. We have had advice from DCMS lawyers that we need to be careful—we cannot stop being the statutory body that we are. The formal members have been appointed to that body. We have created standing orders that consider a situation in which a vote is taken and there is a difference of opinion between executive and non-executive members. We have tried to look sensibly at that and provide rules for what should happen in that case, to take note of the difference of opinion. However, we also recognise that, in the end, the formal members, who have been appointed by the Secretary of State, have the statutory right to make a decision, until legislation is introduced.



HOUSE OF COMMONS

Q109 Chair: Ydych chi'n hollol hyderus y gallwch gael y lefel addas o graffu os yw pawb ar un bwrdd? Dwi'n poeni ychydig am y posibilrwydd bod bwrdd unedol yn golygu y bydd pawb yn dod at ei gilydd, yn hytrach na gofyn cwestiynau anodd i reolaeth S4C.

(Translation) Are you completely confident of getting a suitable level of scrutiny if everyone is on one board? What concerns me a little bit is the possibility that a unitary board would mean that everyone comes together, instead of asking difficult questions of S4C management.

Huw Jones: Dydw i ddim yn meddwl bod hwnna yn gwestiwn gwahanol i'r rhan fwyaf o fyrddau cyrff—a chwmnïau, hyd yn oed. Rhaid i'r aelodau anweithredol ddeall eu cyfrifoldeb i graffu gweithredoedd y swyddogion gweithredol. Mae yna wahaniaeth swyddogaeth. Rydych chi eisiau i'r bwrdd fedru trafod yn gwbl agored a dod i benderfyniadau cytûn, lle mae hynny'n bosib, ond mae gan yr aelodau anweithredol swyddogaeth gwbl benodol, fel yr ydych chi'n awgrymu, o graffu ar y gwaith sydd yn cael ei wneud. Dwi'n meddwl bod hynny efallai yn mynd i fod yn gliriach yn y drefn newydd, fod pobl yn mynd i sylweddoli beth yw eu swyddogaethau nhw fel unigolion, a'i bod yn glir bod y craffu yma yn rhan bwysig o'r gwaith.

(Translation) I do not think that that question is different for us than for most bodies—and even companies. The non-executives need to understand their responsibility of scrutinising the work of the executives. There is a difference of function. You need the board to be able to discuss openly and come to decisions, agreeing where possible. The non-executives have a specific role, as you suggest, of scrutinising the work being done. I think that will perhaps be clearer in the new system. People will understand their functions as individuals and it will be clear that this scrutiny is an important part of the work.

Q110 Susan Elan Jones: Ddarau adolygiad Euryr Ogwen Williams sôn am yr angen i newid diwylliant S4C. Pa fath o newidiadau ydych chi wedi gwneud i hwyluso'r fath newid—os ydych chi wedi gwneud o gwbl?

(Translation) Euryr Ogwen Williams's review talked about the need for a change of culture in S4C. What kind of changes have you made to facilitate that change, if any?

Owen Evans: Wrth drafod newid diwylliant, pan ddes i i S4C fe welais, yn sgil y ffaith bod arolwg ar fin cychwyn, bod rhyw fath o ddryswch am y ffaith bod cylch gwaith S4C heb ddal lan efo beth oedd angen ei wneud. Roedd yn anodd i ni fuddsoddi mewn materion digidol neu ddarlledu mewn ffyrdd gwahanol, gan nad oedd caniatâd go iawn yn statudol i ni wneud hynny. I fod yn deg, beth sydd wedi digwydd wrth i Euryr gyhoeddi ei bapur a'r ymateb gaethon ni gan DCMS yw ein bod wedi cael y sicrwydd i fynd ati i weithredu.

Felly dwi wedi dweud "Reit, rydym ni'n mynd i wneud hyn". Dwi wedi tynnu mewn llawer mwy o gapasiti o gwmpas rheoli prosiectau, i wneud yn siwr bod y math o bethau mae S4C wedi bod yn trafod ers tua chwe mlynedd o gwmpas beth licien ni wneud yn digwydd. Dyna pam dwi'n



HOUSE OF COMMONS

eithaf balch ein bod, yn y chwech mis diwethaf, wedi cyflawni eithaf lot. Mae lot mwy o waith i'w wneud. Mae'r hyn yr ydym ni'n wneud, wrth symud S4C o fod yn ddarlledwr eithaf traddodiadol i fod yn ddarlledwr sydd yn ymateb yn yr un ffordd ag y mae'r BBC, Channel 4 neu pw bynnag, wedi digwydd ar garlam yn y flwyddyn ddiwethaf.

(Translation) In discussing culture change, when I came into S4C I saw, given that a review was about to start, some confusion about S4C's remit not having caught up with what needed to be done. It was difficult for us to invest in digital or to broadcast in other ways, because there wasn't any statutory permission for us to do that. To be fair, Eyrn publishing his paper and then the response from DCMS has given us the assurance to go ahead and implement.

So I have said, "Right, we are going to do this". I have brought in a lot more capacity around project management, to ensure that the things S4C has been discussing roughly over the past six years around what we would like to do are now actually happening. That is why I am very proud that we have achieved quite a lot over the past six months. There is still a lot more work to be done, but what we are doing, in moving S4C from being quite a traditional broadcaster to one that can respond in the same way as the BBC, Channel 4 or whoever, has happened at a gallop over the past year.

Q111 Susan Elan Jones: Rydych chi wedi hanner ateb fy nghwestiwn nesaf. Ydych chi'n meddwl bod pethau eraill sydd angen eu newid?

(Translation) You have half-answered my next question. Do you think that other things need to change?

Owen Evans: Os bydd popeth sydd wedi cael ei drafod yn barod yn digwydd, bydd digon o le i S4C dyfu i fewn i'r byd digidol. Dyna'r peth pwysig i ni: y dyfodol. Mae llond het o bethau strwythurol sydd angen digwydd, ond cael y brif-sianel i addasu i'r byd digidol yw'r pwysicaf. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gadw llygad ar bethau i wneud yn siwr bod beth sy'n dod allan o'r broses statudol yn gyfiawn i beth sydd angen ei wneud, ond dwi'n eithaf ffyddiog bydd hynny'n digwydd.

(Translation) If everything that has already been discussed happens, there will be plenty of room for S4C to grow into the digital world. That is the important thing for us: the future. A huge amount of structural things need to happen, but having the main channel adapt to digital is the most important. Of course, we need to keep an eye on things to ensure that what comes out of the statutory process matches what needs to be done, but I am quite confident that that will be the case.

Q112 Susan Elan Jones: Mae gen i ddiddordeb mewn pobl sy'n gwyllo S4C y tu allan i Gymru—yn Llundain ac yn lle bynnag. Mae hynny'n bwysig iawn i'r iaith Gymraeg a'i dyfodol. Oes yna rhywbeth ynglŷn â diwylliant y sianel fydd yn helpu'r bobl sydd y tu allan i Gymru i wyllo'r sianel?

(Translation) I have an interest in people who watch S4C outside Wales—in London or wherever. I feel that is very important for the Welsh



HOUSE OF COMMONS

language and its future. Is there anything about the culture of the channel that will help people from outside Wales to view the channel?

Owen Evans: Mae yna ddau beth fan hyn: yr ochr statudol, a beth mae S4C yn gallu cynnig. Mae'n wir bod yn rhaid i S4C wneud yn siwr ein bod ni'n cynnig cynnwys cyfoes. Wrth i bobl fynd yn fwy estron a byw drwy'r Deyrnas Unedig i gyd, mae'n rhaid i ni wneud yn siwr eu bod nhw'n deall bod S4C am y Cymry, ble bynnag maen nhw. Mae hwn yn un peth sy'n bwysig.

Mae rhywbeth arall sydd efallai'n bwysicach. Mae lot o sôn wedi bod am amlygrwydd. Mae Ofcom wedi edrych ar hwn yn ddiweddar. Mae'n anodd i ddarllledwr bach mewn byd swllyd gael ein llais trwyddo. Dyna pam mae marchnata digidol mor bwysig i ni, ond rwy'n amau na fydd hynny'n ddigon. Dyna ble mae rôl i'r Llywodraeth i fesur pa fath o amlygrwydd geith darllledwyr fel S4C—ond hefyd y BBC ac eraill.

(Translation) There are two things here: the statutory side and what S4C can offer. It is true to say that S4C needs to ensure that we provide content that is contemporary. As people move away and live throughout the UK, we need to ensure that people understand that S4C is for the Welsh, wherever they are. That is very important.

Perhaps more importantly, there has been a lot of talk about prominence, which Ofcom has been looking at. It is very difficult for a small broadcaster in a very loud world to get our voice out there, which is why digital marketing is so important for us, but I suspect that won't be enough. I think there is a role for Government to measure the prominence of broadcasters such as S4C, BBC and others.

Q113 Liz Saville Roberts: Hoffem ddod yn ôl at ehangu'r cylch gwaith i'r maes digidol. Rwy'n cofio'r sôn am oblygiadau teledu digidol—smart televisions. Fedrwch chi ddweud mwy am yr herfeydd hynny i sianel fach?

(Translation) I'd like to come back to the question about expanding the remit into digital. I remember that there was some talk about the implications of smart televisions. Can you tell us a little more about the challenges of that for a small channel?

Owen Evans: Mae popeth ry'm ni'n wneud yn balans—beth gallwn ni wneud efo'r capasiti a'r adnoddau sydd gennym. Mewn byd delfrydol, byddai ap S4C ar bob smart TV. Buasai cyflawni hynny ar ben ei hun yn costio tua £1 miliwn y flwyddyn. Dyw'r arian ddim gennym i wneud y fath beth yn y tymor byr. Mae dargyfeirio arian yn anodd. Ry'm ni wedi dargyfeirio £3 miliwn yn barod. Rwy'n amau bydd mwy o arian yn symud o gwmpas yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r gost o wneud rhywbeth tebyg yn fawr. Felly rhaid i ni fod yn glyfar. Ry'm ni wedi bod yn edrych ar y platfformau sy'n rhoi'r mwyaf o weledigaeth S4C i'n gwylwyr, felly ry'm ni'n edrych ar bethau fel Freeview Play. Ry'm ni hefyd yn edrych ar setiau teledu lle nad yw Freeview Play ar gael, megis rhai Samsung. Mae angen ap ar gyfer setiau Samsung. Mae gennym strategaeth. Ry'm ni'n cadw golwg ar sut i gyflawni pethau ond y balans yw: faint o adnoddau sydd gennym a beth gallwn ni fforddio?



HOUSE OF COMMONS

(Translation) Everything we do is a balance between what we can do and the capacity and resources that we have. In an ideal world, we would like S4C's app on every smart TV. Achieving that would cost us £1 million a year, and we don't have the resources to do that in the short term. Diverting funding is difficult, and we have already diverted £3 million. I suspect that more money will be moved around over the next few years. The cost of doing that is large, so we need to be smart. We have been looking at which platforms provide the best service for our viewers. We are looking at things such as Freeview Play, and we are looking at where that is not provided, such as for Samsung TVs—you need an app for that. We have a strategy, and we are regularly keeping an eye on how we do this, but there is always a balance between how much resource we have and what we can afford.

Q114 Liz Saville Roberts: Pa rôl sydd gan y Llywodraeth i ddiogelu presenoldeb PSBs—darlledwyr cyhoeddus? Yn y byd digidol, mae yna beryg i'r sianelau hyn ddiflannu.

(Translation) What role do Government have in protecting the presence of PSBs? In the digital world, there is a risk that these channels will disappear.

Huw Jones: Mewn unrhyw faes lle mae gan y Llywodraeth unrhyw fath o reolaeth dros amodau cwmnïau, mae'n bosib cynnig rheoleiddiadau. Os oes gan wneuthurwyr setiau teledu unrhyw fantais drwy access i rwydweithiau Prydeinig, neu grantiau, neu unrhyw fudd o fod yn rhan o drefn Brydeinig, mae gan y Llywodraeth rhyw fath o leverage o ran, er enghraifft, mynnu cael amlygrwydd i ddarlledwyr cyhoeddus. Dyna'r math o beth mae'r Llywodraeth yn gallu gwneud os yw o'n dymuno.

(Translation) Regulations can be put in place in any area where Government have any kind of control over the conditions in which companies are working. If television manufacturers have any advantage through access to UK networks, or grants, or any benefit from being part of a British system, the Government have leverage to ensure prominence for public broadcasters. That is the type of thing that the Government can do, should it desire.

Owen Evans: Hefyd, mae yna ateb heddiw ac ateb mewn pum mlynedd. Ateb heddiw am yr EPG yw, os nad yw S4C ar y tair tudalen gyntaf, y siawns yw bydd llai o wylwyr yn darganfod beth sydd ymlaen achos mae pobl yn tueddu sgipio trwyddo, gweld rhywbeth a stopio. Yn y dyfodol, wrth i apiau ddod yn fwy blaengar yn y ffordd mae pobl yn gwylio rhaglenni, bydd yn anodd iawn i ddarlledwyr bach fel S4C sicrhau ein bod ni'n gallu cyflenwi'r apiau, a bod nhw ar y platfformau i gyd. Gellir dangos market failure o gwmpas rhywbeth fel hyn. Fel arfer, mewn achos o market failure, mae'n addas i'r Llywodraeth gamu mewn.

(Translation) Also, there is an answer today and in another in five years. The answer today on EPG is, if S4C is not on the first three pages, the chances are that we will have fewer viewers who will find out what's on, because people tend to just to scroll through, see something and stop. The



HOUSE OF COMMONS

answer for the future is, as apps become more and more prominent, it will be hard for a small broadcaster like S4C to ensure that we are on all the platforms. Market failure can be shown in such a case. When there is market failure, it is usually appropriate for Government to step in.

Q115 Guto Bebb: Wna i gychwyn drwy gadw'r ddesgil yn wastad efo fy merch, sydd eisiau gwybod pam dydy "Gwaith Cartref" ddim yn un o'r cyfresi sydd yn cael eu cynnig fel bocs set. Mae hi wedi cael ei phechu'n ofnadwy, felly mae hi eisiau gwybod pryd ydach chi'n debygol o roi cyfresi cyntaf "Gwaith Cartref" ar Clic fel bocs set. Dyna'r cwestiwn pwysig—mi gewch chi amser i feddwl am hwnnw. Tra ry'ch chi'n gwneud hynny, mae gennym gwestiwn arall.

Rydych chi wedi sôn yn barod am yr angen am newid deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod rhai o'r argymhellion yn adroddiad Euryng Ogwen yn cael eu gweithredu, ond ry'm ni fel Pwyllgor wedi cael ar ddeall nad oes amserlen benodol ar gyfer hynny. Ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau pellach hefo DCMS ynghylch y posibilrwydd o amserlen ar gyfer deddfu? Yn yr un modd, ydy'r methiant i ddeddfu yn unol â'r adroddiad yn creu problemau i chi fel sianel?

(Translation) I will start by keeping my daughter happy by asking why "Gwaith Cartref" is not one of the series that is available as a box set. She is very upset and wants to know when you are likely to make the first series of "Gwaith Cartref" available as a box set on Clic. That's the important question—I'll give you some time to think about it, and while you do so I'll ask another question.

You have already touched on the need for legislative changes to ensure that some of Euryng Ogwen's recommendations are implemented, but we have also heard as a Committee that there is no timetable for that. Have you had any further discussions with DCMS on a timeline for legislating? Similarly, is the failure to legislate causing problems for you as a channel?

Huw Jones: Rydym ni'n trafod gyda'r Adran yn rheolaidd. Dydyn ni ddim wedi cael arweiniad ynglŷn â phryd maen nhw'n disgwyl dod o hyd i amser deddfwriaethol, am resymau amlwg, mae'n siwr.

(Translation) We have regular discussions with the Department. We have been given no idea about when parliamentary time can be provided—for obvious reasons, I suppose.

Guto Bebb: Tybed be ydy rheiny?

(Translation) I wonder what they are?

Huw Jones: Ydy e'n creu anhawster? Ddim ar y funud, oherwydd ein bod ni'n fodlon ac yn hapus i weithredu fel bwrdd unedol fel petai'r ddeddfwriaeth yn bodoli. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ffeindio allan beth yw deinamics y drefn newydd, os liciwch chi. Does yna ddim drwg yn hynny o beth ac efallai bydd y profiad yna yn arwain at ddeddfwriaeth gwell maes o law. Dydi e ddim yn broblem fel y cyfryw, ar wahan i'r ffaith bod elfen o risg corfforiaethol yn y ffaith, nes bod y ddeddfwriaeth wedi ei newid i



HOUSE OF COMMONS

ddweud "Mae e'n rhan o'ch cylch gwaith chi i fod yn ddigidol" ac ati, rydym ni'n cymryd ychydig bach o risg yn y ffaith nad oes gennym ni ddeddfwriaeth fel backstop. Mae gennym arweiniad clir gan y Llywodraeth yn eu hymateb nhw i'r adolygiad sy'n dweud eu bod yn croesawu'r cyfeiriad yma ac yn argymhell i ni fynd yn gryf i'r cyfeiriad yna. Dy'n ni'n teimlo'n weddol hyderus nad yw'r drefn bresennol yn broblem fawr ynddi ei hun.

(Translation) Does it cause difficulties? At the moment, I don't think it does. We are happy to operate as a unitary board as if the legislation were in place. That gives us an opportunity to find out the dynamics of the new system. There is no harm in that, and perhaps the experience will lead to better legislation in due course. It is not a problem as such, except for the fact that there is an element of corporate risk, because until the legislation changes to say it is part of our remit to be digital, we are taking a little bit of a risk by not having legislation as a backstop; but we have clear guidance from the Government in their response to the review. They say they welcome the recommendations and strongly recommend that we go in that direction. So we feel reasonably confident that the current system is not a big problem.

Q116 **Guto Bebb:** Ydy'r cyngor cyfreithiol rydych chi wedi cael yn datgan nad oes posibilrwydd o gwbl o gael eich brathu wrth wneud hynny heb ddeddfwriaeth?

(Translation) Does the legal advice you have had state that there is no risk of getting bitten by doing this without legislation?

Huw Jones: Mae'r cyngor cyfreithiol gan yr Adran yn nodi "Byddwch yn ofalus". Wrth gwrs, mae hwnna'n taflu'r broblem yn ôl atom ni a ry'm ni wedyn yn pwysu ar ewyllys da ac ar arwyddion gwleidyddol clir ynglŷn â chyfeiriad.

(Translation) Legal advice from the Department notes that we should be careful. Of course, that throws the problem back to us and we are then dependent on good will and clear political signs for direction.

Q117 **Guto Bebb:** Mae'n deg dweud, felly, eich bod chi ddim wedi methu â gweithredu yn unol â'r adroddiad, ond y buasech, mewn byd delfrydol, yn licio gweld y deddfu yn digwydd yn gynt nag yn hwyrach.

(Translation) It is therefore fair to say that you haven't failed to act according to the report's recommendations, but in an ideal world, you would like to see the legislation happen sooner rather than later.

Huw Jones: Wrth gwrs.

(Translation) Yes, of course.

Q118 **Guto Bebb:** O ran trafodaethau efo DCMS, beth ydi'r sefyllfa bresennol o ran trefniadau archwilio allanol? Roedden i'n clywed bod hwnnw wedi ei drafod. Lle ydyn ni wedi cyrraedd efo hwnna?

(Translation) Regarding discussions with DCMS, What is the current situation with external audit? I know that that has been discussed. What



HOUSE OF COMMONS

point have we reached with that?

Huw Jones: Argymhelliad yr adolygiad yw y dylai'r NAO fod yn archwilio S4C. Does gennym ni ddim problem efo hynny. Mae ein trefn bresennol gyda'n archwilwyr presennol, Grant Thornton, yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Ry'm ni'n disgwyl clywed gan yr Adran a fydd yr NAO yn cymryd drosodd ai peidio yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rydyn ni ar ddeall bod yna rywffaint o anhawster o ran amseru, ond mae hynny yn fater i'r Adran adrodd arno. Ry'm ni'n dymuno clywed yn fuan iawn ai dyna bydd yn digwydd, achos os na, bydd yn rhaid i ni ddod i drefniant naill ai i'r archwilwyr presennol barhau am flwyddyn arall, neu i hysbysebu am gytundeb hirach na hynny a gweld pwy sydd am gynnig amdano.

(Translation) The review recommends that the NAO should audit S4C. We do not have a problem with that. Our current arrangement with our auditors Grant Thornton ends at the end of this financial year, so we expect to hear from the Department whether the NAO will take over in the next financial year. We understand that there is some difficulty about timing, but that is a matter for the Department to report on. We would of course like to hear very soon whether that is going to happen, because if it does not happen we will need to make arrangements either for the current auditors to continue for another year, or to advertise for a longer-term agreement and see who wants to bid for that.

Q119 **Guto Bebb:** Yn sgil y ffaith bod y cyfrifon wedi cael eu rhoi i'r Swyddfa Archwilio, ydych chi wedi derbyn unrhyw sylwadau ganddyn nhw ar y cyfrifon hynny?

(Translation) Have you had any comments on the accounts that have been provided to the National Audit Office?

Huw Jones: Dim i mi fod yn ymwybodol.

(Translation) No, not as far as I know.

Owen Evans: Na fi chwaith, ond mi allwn ni edrych ar hynny.

(Translation) Me neither, but I can check.

Q120 **Guto Bebb:** Ond rydych chi wedi eu rhoi—maen nhw wedi eu cael nhw?

(Translation) But the NAO has received them?

Huw Jones: Do.

(Translation) Yes.

Owen Evans: Do, maen nhw'n eu cael nhw bob blwyddyn.

(Translation) Yes, the NAO gets them every year.

Guto Bebb: Felly hyd yma, does yna ddim adborth wedi dod o gwbl.

(Translation) And so far, you've had no feedback at all.

Q121 **Chair:** Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd o'r Adran? Pe buasai'r Llywodraeth ddim yn cyflwyno'r ddeddf newydd yn



HOUSE OF COMMONS

fuan, pa fath o effaith bydd hyn yn cael ar S4C?

(Translation) What is the Department's timetable for introducing the legislation? If the Government does not bring forward the new legislation soon, what kind of impact will that have on S4C?

Huw Jones: Fe fydden i'n rhoi'r un ateb â dwi wedi rhoi i Mr Bebb. Dydyn ni ddim yn gwybod pryd ddaw'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn nwylo'r Llywodraeth. Yn y cyfamser, ry'm ni'n gweithredu mewn ewyllys da fel corff cysgodol. Dwi ddim yn meddwl bod gen i lawer i ychwanegu i'r ateb blaenorol.

(Translation) I will give you the same response as I gave Mr Bebb: we do not know when the legislation will come. It is in the Government's hands. In the meantime, we are operating on the basis of good will, as a shadow body. I don't think I have much to add to the previous answer.

Q122 **Susan Elan Jones:** Does gennym ni ddim syniad o gwbl pryd mae'r ddeddfwriaeth yn mynd i ddod?

Q123 *(Translation) We have no idea when the legislation will come?*

Huw Jones: Ry'm ni'n gwybod bod yr Adran yn awyddus i ddod â'r ddeddfwriaeth yn ei blaen. Mae gwaith drafftio yn digwydd ar hyn o bryd. Ond dwi ddim yn meddwl bod yr Adran mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth i ni ar hyn o bryd.

